# PWYLLGOR PENODI

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Bob Parry OBE - Is-Gadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, D.R. Hughes, T. Victor Hughes, Vaughan Hughes, H. Eifion Jones, J. Arwel Roberts. |
| **WRTH LAW** | Dirprwy Brif Weithredwr<br>Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro<br>Pennaeth Proffesiwn – Adnoddau Dynol<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **YMDDIHEURIADAU** | Y Cynghorwyr Jeff M. Evans, Carwyn Jones. |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Dim |

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni wnaed yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2014.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r isod:-**

"**Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".**

**4 PENODIADAU STAFF**

**Y Pennaeth Cyllid Corfforaethol a Chaffael**

Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr bod y Pwyllgor Penodiadau a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2014 wedi penderfynu y byddai 7 ymgeisydd yn bwrw ymlaen i gam nesaf y broses benodi. Amlinellwyd y broses benodi sef:-

- Cam 1 - Asesiad annibynnol o'r cymwyseddau ymddygiadol
- Cam 2 – Profion safon diwydiant annibynnol o allu technegol ar gyfer y swydd
- Cam 3 – Cyfarfod anffurfiol i'r ymgeiswyr gwrdd â swyddogion allweddol ac Aelodau Etholedig (sydd ddim yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Penodi).
- Cam 4 – Cyfweliad gyda Swyddogion.

Yn dilyn asesu'r ymgeiswyr ar ddiwedd Cam 4, adroddwyd nad oedd yr un ymgeisydd wedi cyrraedd y lefel ddisgwyliedig ar gyfer bwrw ymlaen i'r Panel Penodi terfynol.

Yn dilyn trafodaethau **PENDERFYNWYD:-**

- **Bod yr Awdurdod yn penodi ymgynghorydd arbenigol i weithio gyda'r Awdurdod i ddenu ymgeiswyr addas ar gyfer y swydd yn y flwyddyn newydd.**
- **Cadarnhau y bydd y Swyddog Adran 151 Dros Dro yn aros yn y swydd honno hyd nes y bydd Swyddog Adran 151 parhaol wedi ei benodi i'r swydd.**

**Y CYNGHORYDD BOB PARRY OBE**
**IS-GADEIRYDD YN Y GADAIR**